# Y Tabernacl



# Cyflwyniad

Wythnos yma byddwn yn archwilio adeiladu'r tabernacl. Mae'r darnau sy'n delio gydag adeiladu'r tabernacl i'w cael yn Exodus 25:1-31:18 ac Exodus 35:4-40:38. Gallwch ddewis mynd yn fwy manwl gyda'ch plentyn, ond byddwn yn canolbwyntio ar y prif bwyntiau o—

Video playlist

- Mae Duw eisiau byw ymysg Ei bobl.
- Mae Duw eisiau i ni ddefnyddio'r doniau mae E wedi rhoi i ni.
- Dylwn gynnig popeth gallwn i Dduw.

## Canllaw'r wers


Gofynnwch i'r plentyn os ydynt yn cofio beth dderbyniodd Moses ar Fynydd Sinai. Eglurwch fod Duw wedi rhoi cynlluniau am y tabernacl.

Gofynnwch i'r plentyn os ydynt yn gwybod beth yw cynllun. Eglurwch ein bod yn medru gwneud cynlluniau geiriol fel beth i'w fwyta i ginio. Pwyntiwch allan hefyd ein bod yn medru tynnu llun cynlluniau fel pan fyddwn yn adeiladu rhywbeth. Dewiswch rywbeth syml i adeiladu gyda'ch plentyn. Mae llawer o gynlluniau crefft i'w cael ar y we. Dangoswch y camau ar y cynllun i'ch plentyn wrth i chi eu gwneud. Pwyntiwch allan mai er mwyn creu'r eitem rydych yn ceisio'i wneud, rhaid i chi ddilyn y camau fel maent wedi'i dangos yn y cynllun. Dywedwch wrth y plentyn bod gan Dduw gamau arbennig iawn i'w dilyn er mwyn creu Ei dŷ Iddo.

Eglurwch i'r plentyn bod pobl Israel yn gwneud offrymau i Dduw. Meddyliwch am ffyrdd gallwch gynnig pethau i Dduw. Gallwch ddefnyddio hyn fel ffordd i ddysgu eich plentyn am ddegymau ac offrymau. Pwyntiwch allan ein bod yn medru rhoi pethau gwahanol i arian i Dduw, fel yr Iddewon oedd wedi rhoi eu hamser. Dewiswch berson sy'n mynd trwy amser anodd gydag iechyd neu brofedigaeth arall. Eglurwch i'r plentyn eich bod yn mynd o ddefnyddio'ch amser i helpu'r person yma. Ceisiwch ddewis dasg sydd yn diddori eich plentyn. Os ydynt yn mwynhau tynnu llun, crëwch gerdyn 'Brysiwch Wella.' Cynigwch wneud tasg syml i'r person fel golchi ei gar. Gallwch helpu eich plentyn i goginio pwdin os oes ganddo dalent/ diddordeb yn hyn. Pa bynnag dasg rydych yn dewis, sicrhewch eich bod yn gadael i'r plentyn weithio a chael teimlad o gyflawniad. Gweddïwch cyn dechrau i ddweud wrth Dduw bod hwn yn offrwm Iddo. Diolchwch i Dduw Ei fod wedi rhoi'r gallu i chi i wneud yr offrwm hwn Iddo.

Darllenwch Corinthiaid 3:16. Dywedwch wrth y plentyn nad ydynt eisoes angen adeiladu tabernacl i Dduw oherwydd Ei fod yn byw yng nghalonnau'r rhai sy'n credu Ynddo. Atgoffwch y plentyn am y camau roedd angen i'r Iddewon gymryd i adeiladu tŷ Duw. Pwyntiwch allan gallwn wneud ein calonnau yn gartref i Dduw trwy edifarhau ac ymddiried yn yr Iesu i'n hachub o'n pechodau. Darllenwch Effesiaid 3:17.

© 2022 truewaykids.com



Pan roedd yn amser i'r Iddewon symud, byddai'r cwmwl yn codi o'r tabernacl.

Os na fyddai'n codi, byddai'r bobl yn aros yn y fan a'r lle.

Ond pan symudodd y cwmwl, byddent yn pacio popeth a dilyn.

Roeddynt wedi plesio Duw trwy ufuddhau Iddo ac adeiladu'r tabernacl.



# Y Tabernacl




Dywedodd Duw wrth Moses am adeiladu pabell arbennig a'i alw'n tabernacle.

Rhoddodd Duw'r manylion i Moses i wneud y tabernacl yn berffaith.

Roedd y bobl mor hapus bod Duw eisiau byw gyda nhw.

Rhoesant aur, gemau, defnydd, ffwr, a phren i adeiladu'r lle arbennig hwn.



Gofynnodd Moses i'r bobl ddefnyddio eu sgiliau arbennig i helpu adeiladu'r tabernacl.
Roedd y bobl gallai brodio yn defnyddio eu sgiliau i greu defnyddiau wedi eu brodio'n brydferth, i dŷ Dduw.
Roedd dynion oedd yn gwybod sut i weithio gyda'u dwylo yn defnyddio eu sgiliau i dorri pren, morthwylio metel a cherfio cerrig.
Roedd pawb yn hapus i fod yn gwneud rhywbeth i Dduw.





O'r diwedd roedd y tabernacl wedi ei orffen.

Arolygodd Moses y gwaith.

Roedd y bobl wedi gwneud popeth yn union fel gorchmynnodd Duw.

Bendithiodd Moses nhw.

Gorchuddiwyd y tabernacl gyda chwmwl, ac roedd gogoniant yr Arglwydd yn llenwi'r tŷ roeddynt wedi creu i Dduw.

# Chwaraeon a Gweithgareddau

## BLOCIAU ADEILADU

Gadewch i'ch plentyn cael ychydig o chwarae rhydd gyda'r blociau adeiladu.

Anogwch nhw i geisio creu adeiladau.

Siaradwch gyda nhw am y ffordd adeiladodd y bobl y tabernacl a sut roeddynt yn ymdrechu i wneud eu gorau.





## STORI PABELL AC AMSER GWEDDI

Roedd y tabernacl yn lle i gwrdd gyda Duw.

Adeiladwch babell tu mewn gan ddefnyddio blancedi neu codwch babell tu allan.

Cymerwch amser i ddarllen y Beibl a gweddïo tu mewn gyda'ch plentyn.

## MESURWCH EICH TŶ

Roedd mesuriadau'r tabernacl yn bwysig iawn.

Ffeindiwch dâp mesur diogel a gadewch i'ch plentyn fesur eitemau gwahanol o gwmpas y tŷ.

Chwaraewch gêm dyfalu am ba eitemau bydd yn fwy neu yn llai.



© 2022 truewaykids.com

# Swyddi pwysig


Tynnwch linell i gysylltu beth mae pob person angen am ei swydd.



© 2022 truewaykids.com

# Cynlluniau patrwm

Copïwch y patrwm



© 2022 truewaykids.com


# Lliwiwch a chyfrwch

5 Ciwbiau




| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |

☐ Ciwbiau




| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |

☐ Ciwbiau



| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |

☐ Ciwbiau




| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |

☐ Ciwbiau



| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |

☐ Ciwbiau



| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |

☐ Ciwbiau



| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |

☐ Ciwbiau




| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |

© 2022 truewaykids.com

# Tŷ dot i ddot

## Glasbrint tŷ



# Crefft tabernacl

## Pethau byddwch angen:


- 1 bocs grawnfwyd mawr, 1 bocs grawnfwyd unigolyn a bocs llai
- 1 caead potel
- 3 taflen o bapur gwyn
- papur lliw
- papur grât porffor
- ffon glud
- siswrn
- pen



## Beth i'w wneud:



Torrwch y caead a'r ochr o'r bocs grawnfwyd mawr. Gadewch y fflapiau ar y top. Torrwch gaead y bocs grawnfwyd bach.



Gludwch bapur gwyn ar du allan y bocs grawnfwyd mawr.



Gludwch y papur grât ar blaen y bocs grawnfwyd bach i wneud llen. Gorchuddiwch weddill y bocs gyda phapur lliw.



Gludwch bapur grât ar un ochr o'r porth blaen. Bydd hyn yn gadael i'r llen agor a chau.



Paentiwch y bocs lleiaf a'r caead potel gyda phaent aur. Crensiwch ychydig o bapur oren i wneud tân i'r allor a thorrwch gylch bach glas i wneud dŵr i'r basn.



Gludwch ychydig o bapur brown ar gaead y bocs grawnfwyd bach. Gadewch yr ochrau heb eu gludo fel bod y papur yn creu canopi pabell. Ychwanegwch y manylion gyda phen.

© 2022 truewaykids.com

# Crefft Arch yr Addewid


## Pethau byddwch angen:


- Tudalennau templed (du a gwyn neu liw)
- Siswrn
- Glud
- Defnyddiau lliwio




## Beth i'w wneud:


1. Lliwiwch y tudalennau templed.
2. Torrwch allan y rhannau i gyd.
3. Gludwch yr angylion ar yr arch.
4. Gosodwch y gwrthrychau tu mewn.
















© 2022 truewaykids.com





© 2022 truewaykids.com


























© 2022 truewaykids.com





© 2022 truewaykids.com

© 2022 truewaykids.com




© 2022 truewaykids.com





© 2022 truewaykids.com

© 2022 truewaykids.com



# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## Tabernacle

https://youtu.be/FwpxYfitows

## God is so good

https://youtu.be/eg3bvbDVUTg

## Glory To God Forever

https://youtu.be/qCokNI69cEc



# Amser Gweddi

Diolchwch i Dduw am fyw gyda ni.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i ddefnyddio'r doniau a'r pethau mae E wedi rhoi i chi i'w wasanaethu Ef.

# Wythnos Nesaf:

## Duw yn arwain ei bobl

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.

© 2022 truewaykids.com